# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau sy'n bresennol:</u>** | **<u>Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022</u>** |
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd A.J.Richards** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd J.Henton** |
| **Cynghorwyr**: | M.Crowley, H.Davies, S.Renkes a/ac S.Thomas |
| **Swyddogion yn Bresennol:** | Neil Chapple<br>Gavin White<br>Sarah McCluskie |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Derbyniwyd y datganiad o fudd canlynol;

Y Cyng. M Crowley ar gyfer eitem 7 ar yr Agenda - Cais am Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

Nodwyd bod y Cyng. Crowley yn credu ei fod yn adnabod un o gyfeillion agos yr ymgeisydd, felly ystyriwyd hynny'n fudd personol. Yn dilyn hyn, gadawodd y Cyng. Crowley'r cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y penderfyniad.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

4. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

5. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfynwyd:**
Yn unol ag Adran 100B (2) a (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a pharagraff eithriedig 12 a grybwyllir isod o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod. Hefyd, yn unol â pharagraff 21 yr Atodlen, ac yn holl amgylchiadau'r achos, ystyrir bod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

6. **TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 1**

Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO** cais yr ymgeisydd am Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat, ar ôl ystyried yr adroddiad a chlywed yr holl sylwadau ac ystyried Polisi Trwyddedu Tacsis y Cyngor.

7. **TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 2**

Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod

**PENDERFYNWYD: GWRTHOD** cais yr ymgeisydd am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat ar ôl ystyried yr adroddiad a chlywed yr holl sylwadau ac ystyried Polisi Trwyddedu Tacsis y Cyngor, ar y sail ganlynol; nid oedd yn bodloni Polisi Trwyddedu Tacsis yr Awdurdod; ac nid oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno unrhyw resymau eithriadol ynghylch pam y dylai'r pwyllgor wyro oddi wrth ddarpariaethau ei bolisi tacsis.

**CADEIRYDD**